

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 20 Awst 2019

STATWS: CYDYMFFURFIO

CATEGORI: POLISI

Teitl: Asesiad Cleifion Mewnol sy'n Oedolion ac Asesiadau Risg Craidd wedi'u Safoni'n Genedlaethol

Dyddiad dod i ben / Adolygu Ddim yn berthnasol

I'w weithredu gan:

Prif Weithredwyr byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd
Cyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd
Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Gwybodeg byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd

Angen gweithredu erbyn:

30/11/2019

Anfonir gan:

Jean White – Prif Swyddog Nyrsio Cymru

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

Martin Semple, Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio
03000258918
Martin.semple@llyw.cymru

Dogfen(nau) amgaeedig: Ddim yn berthnasol

Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Prif Swyddog Nyrsio - Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

20 Awst 2019

Annwyl Gydweithwyr,

Cyflwyno Asesiadau Risg Craidd wedi'u Safoni'n Genedlaethol

Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru sydd wedi'i atodi yn nodi cynnydd y rhaglen genedlaethol i ddigideiddio dogfennau nyrsio. Hefyd, mae'n amlinellu'r camau pwysig nesaf ar gyfer byrddau/ymddiriedolaethau iechyd, a'r amserlen weithredu y cytunwyd arni ar gyfer yr adnoddau asesu gwahanol sydd wedi'u datblygu trwy'r rhaglen genedlaethol ar y cyd â staff GIG Cymru.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i'ch atgoffa bod Prif Weithredwr GIG Cymru (Dr Andrew Goodall CBE) wedi ysgrifennu at y prif weithredwyr ym mis Tachwedd 2018 ynglŷn â phenodi Arweinydd Gwybodeg Nyrsio Clinigol ym mhob bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd. Nododd y llythyr hwn y byddai'r swyddi'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru hyd at fis Mawrth 2020, ac y byddai byrddau/ymddiriedolaethau iechyd unigol yn ariannu swyddi Arweinwyr Gwybodeg Nyrsio Clinigol ar ôl hynny.

Mae'r swyddi hyn yn hanfodol bwysig ar gyfer cynnal y broses barhaus o safoni dogfennau nyrsio ac arwain y gwaith o ddigideiddio dogfennau nyrsio. Yn y pen draw, bydd y data archwilio'n cael ei ddefnyddio i wella canlyniadau a phrofiadau cleifion.

Yn gywir,

Yr Athro Jean White CBE MStJ

Prif Swyddog Nyrsio
Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru

Cyflwyno Asesiadau Risg Craidd wedi'u Safoni'n Genedlaethol.

Y Sefyllfa Bresennol

Ar hyn o bryd, ychydig iawn o safoni sydd mewn dogfennau nyrsio ledled GIG Cymru. Gwnaed yr ymrwymiad trwy sefydlu'r prosiect cenedlaethol i safoni a digideiddio dogfennau nyrsio. Bydd y gwaith safoni yn lleihau amrywiadau ac yn datblygu dull cenedlaethol o safoni dogfennau nyrsio ac yn helpu i wella cydymffurfiaeth ag archwiliadau/arolygiadau dogfennau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys cydymffurfio ag archwiliadau Safonau Iechyd a Gofal. Mae cam cyntaf y prosiect wedi canolbwyntio ar gyflwyno dogfennau nyrsio electronig wedi'u safoni ym maes gofal eilaidd, asesiad risg maethol cymunedol ac iaith nyrsio safonol i Gymru. Y weledigaeth yw cyflwyno safonau gwybodaeth cyson ar gyfer pob claf a lleoliad gofal iechyd yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae dogfennau nyrsio ledled GIG Cymru yn defnyddio fformatau gwahanol ar gyfer asesiadau nyrsio ac asesiadau risg, sy'n cynnwys prosesau papur yn bennaf, a rhai prosesau digidol mewn ambell i faes arbenigol. O safbwynt asesu derbyniadau cleifion, mae rhai byrddau/ymddiriedolaethau iechyd wedi mabwysiadu'r dull 'Asesu Unedig' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002) fel fframwaith ar gyfer asesiadau nyrsio, mae eraill wedi mabwysiadu 'Hanfodion Gofal' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003) tra bod eraill yn defnyddio 'Activities of Daily Living' (Roper, Logan, a Tierney, 1980). Hefyd, mae adnoddau asesu risg lluosog ar gael, ond nid yw rhai ohonynt yn seiliedig ar dystiolaeth ac nid ydynt yn cynnwys adnoddau i gynorthwyo penderfyniadau clinigol er mwyn helpu i atal risg a niwed i gleifion.

Sefydlwyd y prosiect Digideiddio Dogfennau Nyrsio er mwyn darparu dogfennau nyrsio electronig wedi'u safoni, gan gefnogi Ffrwd Waith 2 y Strategaeth Gofal Iechyd Darbodus ym mhob lleoliad gofal. Mae cam cyntaf y prosiect wedi'i ariannu gan Gyllid Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio sicrhau bod y gyfran gyntaf o ddogfennau nyrsio wedi'u digideiddio y cytunwyd arnynt ar gael yn genedlaethol erbyn mis Tachwedd 2019.

Gofynnwyd i grwpiau arbenigedd amlddisgyblaethol cenedlaethol ledled Cymru gyflwyno argymhellion seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer yr adnoddau asesu risg â blaenoriaeth sydd i'w cymeradwyo ar gyfer defnydd cenedlaethol ochr yn ochr ag Asesiad Cleifion Mewnol sy'n Oedolion Cymru Gyfan diwygiedig wedi'i safoni, gyda'r nod o ddigideiddio pob un o'r asesiadau. Datblygwyd Asesiad Cleifion Mewnol sy'n Oedolion Cymru Gyfan mewn cydweithrediad â byrddau/ymddiriedolaethau iechyd Cymru, a chydlynwyd y gwaith gan Arweinwyr Gwybodeg Nyrsio Clinigol o bob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd. Cafwyd cyngor gan feysydd arbenigol. Mae'r asesiadau wedi'u cymeradwyo trwy ymgysylltu ag aelodau proffesiynau amlddisgyblaethol a thrwy strwythur llywodraethu yn GIG Cymru.

Y System Newydd

Mae'r set gyntaf o asesiadau sydd newydd eu safoni ar gael ar ffurf papur a digidol. Penderfynwyd y bydd yr asesiadau risg/dogfennau safonedig canlynol yn cael eu defnyddio gan sefydliadau'r GIG ledled Cymru:

- Aseiad Cleifion Mewnol sy'n Oedolion Cymru Gyfan
- Aseiad Risg Ymataliaeth / Mynd i'r Toiled Cymru Gyfan
- Aseiad Aml Ffactor Cwmpyadau ac Iechyd Esgyrn Cymru Gyfan
- Aseiad Codi a Chario Cleifion a Chynllun Codi a Chario Mwy Diogel Cymru Gyfan
- Adnodd Sgrinio Risgiau Maeth Oedolion Cymru Cyfan ar gyfer Cleifion Mewnol
- Adnodd Sgrinio Maeth Oedolion Cymru Cyfan ar gyfer Cleifion Cymunedol
- Aseiad Risg Briwiau Pwyso Purpose T Cymru Cyfan
- Yr adnoddau Asesu Poen Cymru Gyfan wedi'u cytuno yw:
 - Poen ymysg Cleifion â Dementia Difrifol
 - Adnodd Asesu Poen Abbey
 - 0-10
 - Graddfa Sgôr yn ôl Categori

Bydd pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd yn dewis rhywun i arwain y broses o newid i ddefnyddio'r adnoddau safonedig newydd. Penderfynwyd cyflwyno'r adnoddau hyn fesul tipyn er mwyn cynorthwyo'r newid i ffurfiau digidol o'r adnoddau asesu safonedig. Er y bydd fersiynau papur o'r adnoddau safonedig yn cael eu defnyddio yn y lle cyntaf o bosibl, bydd pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd yn datblygu cynllun gweithredu er mwyn newid i ddefnyddio ffurfiau digidol o'r adnoddau asesu safonedig.

Mae aelodau ehangach o'r tîm amlddisgyblaethol yn defnyddio dogfennau nyrsio, ac felly mae angen i bob aelod o staff fod yn ymwybodol o'r adnoddau safonedig hyn. Mae adnoddau addysgol ar gael i helpu staff i baratoi i newid i ddefnyddio'r adnoddau newydd. Bydd byrddau/ymddiriedolaethau iechyd lleol yn darparu rhagor o wybodaeth am hyn.

Dyma'r dyddiadau gofynnol ar gyfer cyflwyno'r adnoddau hyn:

Adnodd Asesu	I'w weithredu erbyn
Adnodd Sgrinio Risgiau Maeth Oedolion Cymru Cyfan	30 Tachwedd 2019
Adnodd Sgrinio Maeth Oedolion Cymru Cyfan ar gyfer Cleifion Cymunedol	30 Tachwedd 2019
Aseiad Cleifion Mewnol sy'n Oedolion Cymru Gyfan	1 Mai 2020



Aseiad Risg Ymataliaeth / Mynd i'r Toiled Cymru Gyfan	1 Mai 2020
Aseiad Aml Ffactor Cwmpiadau ac Iechyd Esgyrn Cymru Gyfan	1 Mai 2020
Aseiad Codi a Chario Cleifion a Chynllun Codi a Chario Mwy Diogel Cymru Gyfan	1 Mai 2020
Aseiad Risg Briwiau Pwyso Purpose T Cymru Cyfan	1 Mai 2020
Adnoddau Aseu Poen Cymru Gyfan	1 Mai 2020